

# HINSAWDD



## PAM MAE'N BWYSIG

Mae newid hinsawdd yn effeithio ar bob agwedd ar ein bywydau: ein hiechyd, ein cymunedau, ein cyfleoedd yn y dyfodol a'r lleoedd sy'n bwysig i ni.

## Y MATERION

Tynnodd pobl ifanc sylw at broblemau amlwg:

Adnoddau'n prinhau – mae bwyd, dŵr ac ynni'n mynd yn anoddach eu cael

Gweithredu ar yr hinsawdd er mwyn ticio blwch – sefydliadau'n dweud eu bod yn malio ond yn gwneud fawr ddim

Diffyg llais i bobl ifanc – gwneud penderfyniadau amdanynt, nid gyda nhw

Effeithiau croestoriadol – effeithiau annheg ar grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio

Diffyg addysg – mae dysgu am yr hinsawdd yn anghyson neu'n ddryslyd

'Problem rhywun arall' – oedolion yn trosglwyddo'r cyfrifoldeb

'Dydy hi ddim yn cŵl i ofalu' – stigma ynghylch codi llais

Gorddibyniaeth ar AI a'i ddefnyddio – sefydliadau'n defnyddio AI ar gyfer hysbysebion a gweithdai yn lle opsiynau ag effaith isel, fel dysgu yn yr awyr agored; mae pobl ifanc eisiau gweithredu ar yr hinsawdd heb greu rhagor o allyriadau

## BETH DYWEDODD POBL IFANC?

Dywedodd pobl ifanc eu bod yn teimlo:

Bod adnoddau'n dod i ben

Bod y blaned yn cael ei niweidio'n gyflymach nag y gallwn ei hadfer

Bod penderfyniadau'n cael eu gwneud hebddynt

Mae cyfiawnder hinsawdd hefyd yn gysylltiedig â thlodi, hiliaeth, anabledd, mynediad mewn ardaloedd gwledig ac anghydraddoldeb, sy'n golygu bod rhai grwpiau'n cael eu taro'n galetach nag eraill.

## BETH RYDYM AM I'R RHAI SY'N GWNEUD PENDERFYNIADAU EI WNEUD

Lleihau defnydd ar raddfa genedlaethol

Trethu'r 1% cyfoethocaf a chorfforaethau

Strategaeth hirdymor dda

Partneriaethau rhyngwladol a chydweithio rhwng y gwledydd

Gwrth-gyfalafiaeth – rhoi diwedd ar wleidyddiaeth sy'n cael ei gyrru gan elw

## CYNLLUN GWEITHREDU

Digwyddiadau lleol – diwrnodau cyfnewid, gweithdai atgyweirio, rhannu offer?

Sesiynau cyd-ddylunio, prosiectau bach ac ymgyrchoedd

Cynghorau hinsawdd pobl ifanc

Allgymorth wedi'i dargedu ac archwiliadau o rwystrau

Fideos dan arweiniad pobl ifanc a sesiynau rhannu gwybodaeth

Gemau a heriau hinsawdd